

Cyngor Cymuned Llanystumdwy,

Rhaglen waith y Cyngor– nos Iau, Gorffennaf 5ed, 2018 yn brydlon am 7-00 y.h.

yn **NEUADD LLANYSTUMDWY**

1. Ymddiheuriadau.
2. Cadarnhau cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar Fehefin 7fed, 2018 a chyflwyno cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Amodau Gwaith gynhaliwyd ar Fehefin 19eg, 2018.
3. Cadarnhau argymhelliad y Panel Cyfweid ynghylch penodi Clerc a Swyddog Ariannol Cyfrifol i'r Cyngor, gyfarfu nos Lun, Gorffennaf 2il, 2018 yn Festri Capel Pencaenewydd.
4. Arwyddo cadarnhad y taliadau BACS gan y Cadeirydd.
5. Materion yn codi o'r cofnodion. Ar y rhaglen.
6. Datgan buddiant personol.
7. Cyngor Gwynedd.
 1. Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Gwasanaeth Rheoli Gwastraff a Strydoedd, bin baw cŵn ger Pont y Rheilffordd yn Afonwen.
 2. Adran Amgylchedd; Gwasanaeth Trafnidiaeth a Chefn Gwlad, Gwasanaethau bws o Glandwyfach i Gricieth drwy Rhoslan.
8. Cyngor Gwynedd – Ceisiadau Cynllunio yn y gymuned.
 1. Cais Rhif: C18/0442/41/LL – Codi modurdy; Bont Fechan Cottage, Llanystumdwy.
 2. Cais Rhif: C18/0486/41/LL – Codi estyniad unllawr ar gefn ynghyd a chreu teras allanol; Cefn y Gader, Llanystumdwy.
 3. Cais Rhif: C18/0249/41/MG – Cais materion a gadwyd yn ôl ar gyfer codi 15 tŷ preswyl i gynnwys 5 uned fforddiadwy a ganiatawyd yn amlinellol o dan C14/0061/41/AM; Madryn Arms, Chwilog. Cynlluniau diwygiedig.
 4. Cais Rhif: C18/0548/41/LL – Codi estyniad unllawr ar ochr eiddo; Ty'n Lon, Rhyd y Benllig, Rhoslan.
9. Yr Arolygiaeth Cynllunio; penderfyniad ar yr Apêl, Tir ym Mro Sion Wyn, Chwilog.
10. **Materion yn y gymuned.**

Llanarmon

Llanystumdwy

Pont Llanystumdwy

Rhoslan

Gwelediad dros Bont Rhyd y Benllig

Chwilog

Bin Baw Ci ar y Lôn Goed.

Pencaenewydd/Sardis

Llangybi

Materion Ariannol

11. Lwfansau Cyngorwyr am y flwyddyn Ebrill 2018 ymlaen.
12. Adroddiad Ariannol gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol.
13. Derbyn ad daliad TAW £271.55c.
14. Derbyn pris am chwistrellu canclwm siapaneaidd a thorri balsam ar dir y Cyngor ger Pont Llanystumdwy £160-
15. Anfonebau angen eu talu:

- a. Atkins Groundworks Ltd.; barbio llwybr cyhoeddus Bont Fechan, toriad cyntaf £174- yn cynnwys TAW, taliad BACS.
- b. Y Ffynnon, Papur Bro Eifionydd; hysbyseb sengl am swydd Clerc yn rhifyn mis Mai 2018, £6-, taliad BACS.
- c. Cyllid a Thollau EM, treth ar enillion y Clerc, Ebrill, Mai, Mehefin 2018; £230- taliad siec.
- ch. Cyflog chwarter y Clerc, Ebrill/Mai/Mehefin 2018, i'w rannu rhwng y Clerc a Chyllid a Thollau EM;

Cyflog sylfaenol gross; 30 awr x 3 mis x £10.953c = £985.77c
 Oriau ychwanegol, 5 awr x 3 mis x £10.953c = 164.30c
 Cyfanswm = £1,150.07c

Cyllid a Thollau EM; £1,150- x 20% = £230-; cyflog net = £920-, taliad siec.

- d. Costau'r Clerc, Ebrill, Mai, Mehefin 2018; £284.84c; taliad siec.

- 16. Cynhadledd Cymru SLCC yn Llandudno ar ddydd Mercher Medi 5ed, 2018.
- 17. Caniatad i'r Clerc dalu biliau yn ystod misoedd Gorffennaf ac Awst ar ôl ymgynghori gyda'r Cadeirydd/Is gadeirydd.
- 18. Caniatad i roi sylwadau ar geisiadau cynllunio ddaw yn ystod misoedd Gorffennaf ac Awst ar ôl ymgynghori gyda'r Cadeirydd/Is gadeirydd.

It is possible to get an English translation, contact the Clerk.